Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 11/2020
Dyddiad cyhoeddi: 27/02/2020

# **Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi:** Adroddiad diweddaru 2020

**Crynodeb Gweithredol**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am amrywiaeth o drethi yng Nghymru, gan gynnwys y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac, yn fwy diweddar, Gyfraddau Treth Incwm Cymru a ddatganolwyd yn rhannol ym mis Ebrill 2019. Disgwylir i'r trethi hyn a ddatganolwyd, ynghyd â'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig, gyfrannu tua £5bn o gyllid bob blwyddyn yng Nghymru i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Deddf Cymru 2014 hefyd yn rhoi pwerau newydd i Lywodraeth Cymru greu trethi newydd mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r Senedd.

1.2 Er mwyn helpu i fonitro effeithiolrwydd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a lle y dylid targedu gweithgarwch ymgysylltu, mae angen gwybodaeth am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi yng Nghymru. Er mwyn diwallu'r anghenion hyn o ran tystiolaeth, cynhwysodd Llywodraeth Cymru gwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (2016-17; 2017-18; a 2018-19) [1] a chomisiynodd gwestiynau ychwanegol yng

[1] Gofynnwyd cwestiynau i sampl gynrychioliadol o 2,544 o oedolion yn 2016-17, 1,856 o oedolion yn 2017-18 a 1,926 o oedolion yn 2018-19.

nghamau Mehefin 2018, Mawrth 2019 a Mehefin 2019 Arolwg Omnibws Cymru (a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd) [2].

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau sy'n cael eu defnyddio i fonitro newidiadau o ran ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi yng Nghymru, gyda chanfyddiadau yn cael eu cymharu â'r astudiaeth sylfaenol (Owens a Jones, 2019) lle y bo'n bosibl. Caiff y dadansoddiad ei ddefnyddio hefyd i lywio'r ffordd y caiff gohebiaeth ei thargedu ymhlith gwahanol grwpiau o'r boblogaeth.

## 2. Rheolaeth dros drethi sy’n cael eu talu yng Nghymru

**Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi y maent yn eu talu yng Nghymru.**

2.1 Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, dywedodd tua dau o bob tri o ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2018-19 mai Llywodraeth y DU a oedd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi y maent yn eu talu yng Nghymru (66 y cant), tra dywedodd un o bob deg (10 y cant) mai Llywodraeth Cymru a oedd â'r rheolaeth fwyaf drostynt.

2.2 Tueddai'r gyfran a ddywedodd nad oeddent yn gwybod pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi y maent yn eu talu fod yn uwch ymhlith yr ymatebwyr canlynol:

- 16-34 oed;
- heb gymwysterau.

## 3. Ymwybyddiaeth o wahanol drethi

**Mae llai o ymwybyddiaeth gan y cyhoedd o dreth ar deithiau awyr a threth ar wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi o'u cymharu â threthi eraill.**

3.1 Gan ddilyn patrwm tebyg i flynyddoedd blaenorol, roedd bron holl ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2018-19 wedi clywed am Dreth Incwm (96 y cant), Treth ar Werth (94 y cant) a'r Dreth Gyngor (97 y cant), tra roedd wyth o bob deg wedi clywed am y dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ (78 y cant) a threth ar alcohol (81 y cant).

3.2 Mewn cymhariaeth, roedd llai na hanner yr ymatebwyr wedi clywed am dreth ar deithiau awyr o Gymru (46 y cant) a threth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (42 y cant).

---

[2] Gofynnwyd cwestiynau i sampl gynrychioliadol o 1,006 o oedolion ym mis Mehefin 2018, 1,001 o oedolion ym mis Mawrth 2019 a 1,025 o oedolion ym mis Mehefin 2019.

## 4. Datganoli trethi

**Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi gallu gosod rhai trethi yng Nghymru o fis Ebrill 2018 ymlaen.**

4.1 Dywedwyd wrth ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru[3]: 'o fis Ebrill 2018 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu gosod lefelau rhai trethi yng Nghymru a osodwyd yn flaenorol gan Lywodraeth y DU'. Wedyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr: 'Pa rai o'r trethi yma ydych chi'n credu sydd wedi dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru?'.

4.2 Yn 2018-19, dywedodd tua un o bob tri o'r ymatebwyr (34 y cant) yn gywir y byddai'r dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ[4] wedi dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, gan gynyddu o 30 y cant yn 2017-18, er nad oedd y newid hwn yn ystadegol arwyddocaol.

4.3 Dywedodd tua hanner yr holl ymatebwyr yn 2018-19 (49 y cant) yn gywir fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, a oedd yn gynnydd ystadegol arwyddocaol o 40 y cant yn 2017-18.

4.4 Ar ôl i'r trethi hyn gael eu datganoli, dywedodd tua thraean o'r ymatebwyr (35 y cant) i gam mis Mawrth 2019 Arolwg Omnibws Cymru eu bod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir (a ddisodlodd y Dreth Stamp yng Nghymru) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (a ddisodlodd y Dreth Dirlenwi yng Nghymru). Roedd y ganran hon ychydig yn is na'r ffigur cyfatebol yn y cam blaenorol ym mis Mehefin 2018, er nad oedd y newid yn arwyddocaol.

4.5 Tueddai'r gyfran a ddywedodd yn gywir y byddai'r dreth trafodiadau tir a'r dreth dirlenwi yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru fod yn uwch yr ymhlith ymatebwyr canlynol:

- 55 oed a throsodd;
- o grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1.

## 5. Cyfraddau Treth Incwm Cymru

**Bu cynnydd sylweddol o ran ymwybyddiaeth bod Llywodraeth Cymru yn gallu pennu cyfraddau Treth Incwm gwahanol yng Nghymru.**

5.1 Dywedodd tua phedwar o bob deg ymatebydd i gam mis Mehefin 2019 Arolwg Omnibws Cymru (38 y cant) eu bod yn ymwybodol, o fis Ebrill 2019 ymlaen, fod Llywodraeth Cymru

[3] Heb gynnwys y nifer bach o ymatebwyr nad oeddent wedi clywed am yr un o'r trethi a nodwyd.
[4] Fe'i gelwid gynt yn Dreth Dir y Dreth Stamp ac fe'i gelwir bellach yn Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru.

yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol yng Nghymru, sef cynnydd sylweddol o gymharu â'r 24 y cant o ymatebwyr yng ngham mis Mehefin 2018.

5.2 Tueddai ymwybyddiaeth o'r penderfyniad i gyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru fod yn uwch ymhlith yr ymatebwyr canlynol:

- 55 oed a throsodd;
- o grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1;
- a oedd yn byw yng nghanolbarth a gorllewin Cymru

5.3 O'r ymatebwyr hynny i gam mis Mawrth 2019 a oedd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol, dywedodd tua phedwar o bob deg (39 y cant) eu bod wedi dod yn ymwybodol o hyn drwy'r teledu, tra dywedodd tua thraean (34 y cant) eu bod wedi cael gwybod am hyn drwy lythyr a anfonwyd at drethdalwyr Cymreig gan CThEM.

## 6. Rheolaeth dros drethi penodol

**Roedd ymatebwyr yn llai tebygol o nodi'n gywir pwy sy'n gyfrifol am osod lefelau'r dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ yng Nghymru a'r dreth ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi o'u cymharu â threthi eraill.**

6.1 Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ceisio barn yr ymatebwyr ar bwy a oedd â’r rheolaeth fwyaf dros amrywiaeth o drethi (cynghorau lleol, Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU). Gofynnwyd y cwestiynau hyn cyn i gyfraddau Treth Incwm Cymru gael eu datganoli.

6.2 Rhwng 2016-17 a 2018-19, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd mai Llywodraeth Cymru a oedd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r dreth rydych yn ei thalu pan fyddwch yn prynu tŷ yng Nghymru yn sylweddol o 11 y cant i 18 y cant. Fodd bynnag, dywedodd mwyafrif clir o'r ymatebwyr yn 2018-19 (66 y cant) mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau ers i'r dreth gael ei datganoli.

6.3 Roedd rhaniad sylweddol rhwng yr ymatebwyr ynghylch pwy, yn eu barn nhw, oedd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r dreth ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru, gydag bron pedwar o bob deg ymatebydd (36 y cant) yn 2018-19 yn dweud yn gywir mai Llywodraeth Cymru oedd â'r rheolaeth fwyaf, a'r un gyfran o ymatebwyr yn dweud

mai Llywodraeth y DU oedd â'r rheolaeth fwyaf. Ni welwyd fawr ddim newid rhwng blynyddoedd yr arolwg er bod y dreth dirlenwi wedi'i datganoli o fis Ebrill 2018 ymlaen.

6.4 Dywedodd mwy na phedwar o bob deg ymatebydd (45 y cant) yn 2018-19 mai cynghorau lleol sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, tra dywedodd tua thraean (32 y cant) mai Llywodraeth Cymru sydd â'r rheolaeth fwyaf.

6.5 Yn 2018-19, nododd mwyafrif o'r ymatebwyr yn gywir mai Llywodraeth y DU a oedd â'r rheolaeth fwyaf dros Dreth Incwm (70 y cant), TAW (79 y cant) a threth ar alcohol (78 y cant).

6.6 Roedd y darlun yn llai clir o ran treth ar deithiau awyr o Gymru, gyda bron hanner yr ymatebwyr yn 2018-19 (47 y cant) yn dweud yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod y dreth hon, er bod tua thraean (34 y cant) wedi dweud mai Llywodraeth Cymru a oedd â'r rheolaeth fwyaf.

6.7 Ers i'r adroddiad sylfaenol gael ei gyhoeddi, mae llai o achosion o wahaniaethau rhanbarthol o ran ymwybyddiaeth o bwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros drethi gwahanol ond ceir gwahaniaethau yn ôl oedran a lefel addysg o hyd. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r trethi hyn, tueddai ymatebwyr 35-54 oed â chymhwyster ar lefel gradd neu uwch fod yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill o nodi'n gywir pwy a oedd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi penodol.

## 7. Cysylltiad rhwng refeniw trethi a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

**Byddai bron tri chwarter ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru (73 y cant) yn disgwyl i'r holl arian a godir o drethi yng Nghymru, neu'r rhan fwyaf ohono, fynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.**

7.1 Roedd y gyfran a ddywedodd yn gywir y byddai'r holl arian a godir o drethi yng Nghymru yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith y rhai 55 oed a throsodd (30 y cant) ac ar ei hisaf ymhlith y rhai 16-34 oed (16 y cant).

Awduron: Nerys Owens ac Ian Jones (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Owens, N. a Jones, I. (2020). *Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi: adroddiad diweddaru 2020.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 11/2020. Ar gael yn: https://llyw.cymru/dealltwriaeth-y-cyhoedd-o-ddatganoli-trethi-adroddiad-diweddaru-2020

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Nerys Owens
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 258586
E-bost: nerys.owens@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-197-1